

LLWYBR CERRIG ADEILADU SAIN FFAGAN

Cliciwch ar yr 'eiconau' am ragor o wybodaeth...
Mae adeiladau pentref Sain Ffagan yn cynnwys amrywiaeth eang o gerrig diddorol a thrawiadol.

Mae'r daith gerdded hon yn cynnwys tair hen chwarel, a gwybodaeth am ble a sut y mae'r cerrig o'r chwarelau hyn wedi eu defnyddio mewn adeiladau a waliau lleol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws cysylltwch â

E-bost: cefngwlad@caerdydd.gov.uk

Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad, www.outdoorcardiff.com, www.swga.org.uk

ALLWEDD


 Llwyr Cerrig

 Rhwydwaith Llwybrau


 Arwyddion cyfeiriadol

 Castell a Gerddi Sain Ffagan

 Chwarel Coed Bychan

 Chwarelau Greenwood

 Waliau cerrig

 Eglwys y Santes Fair

 Y Ffynnon Ddŵr Garreg

 Chwarel Coedwig Fawr Plymouth



Dechrau'r Llwybr

O ben Bwlch Road, mae Llwybr Trelái yn parhau i fyny'r dyffryn, yn pasio y tu ôl i ychydig o dai cyn ymuno eto â glannau'r Afon Elái. Parhewch ar hyd y llwybr hwn tan y byddwch chi'n pasio drwy gât mochyn fetel ac i mewn i gae mawr ar lethr. Gadewch Llwybr Trelái yma, a dilyn y llwybr cerdded sy'n arwain i fyny'r mynydd yn groeslinol. Ar gopa'r mynydd, mae'r llwybr yn pasio drwy rywffaint o brysgoed, i fyny cyfres o risiau concrit ac yn ymuno â Ffordd Caerdydd rhwng Sain Ffagan a'r Tyllgoed. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y llwybr cerdded am tua 100m, yna croeswch y ffordd i ddilyn y llwybr cerdded sy'n pasio drwy gât mochyn fetel cyn dringo'r mynydd ac i mewn i goedwig Coed Bychan. Ar gopa'r mynydd, wrth i'r llwybr wastatáu, cymerwch y llwybr ar y dde, sy'n arwain at Chwarel Coed Bychan, sef Lleoliad 1 ar y llwybr.

📍 Gât mochyn i mewn i Goedwig Coed Bychan



📍 Llwybr Trelái



Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



Lleoliad 1. Chwarel Coed Bychan

Saif Chwarel Coed Bychan ychydig uwch ben y prif lwybr cerdded. Dyma'r mwyaf o blith sawl chwarel o gwmpas Sain Ffagan. Mae waliau'r chwarel wedi'u gwneud o bentwr o haenau afreolaidd o gerrig, gyda phob un o faint a thrwch gwahanol. Calchfaen yw'r garreg ac fe'i ffurfiwyd wrth i sawl haen o fwd â llawer o'r mwyn calsit ynddo (calsiwm carbonad) bentyrru mewn moroedd trofannol cynnes a bas. Mae haen denau o garreg laid yn gwahanu pob haen galchfaen. Mae carreg laid yn llawn mwynau clai. Mae'r haenau gwahanol yn adlewyrchu newidiadau amgylcheddol ar adeg ffurfio pob haen ac efallai hyd yn oed newidiadau o ran hinsawdd.

Gelwir y gyfres nodweddiadol hon o galchfaen a charreg laid yn Lias Glas, a ffurfiwyd yn y cyfnod Jwrasig, rhwng 200 a 190 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Er nad ydynt i'w gweld yn amlwg yn y chwarel hon, gallwch yn aml ddod o hyd i greaduriaid môr wedi'u ffosileiddio yn y cerrig hyn, gan gynnwys amonitau a chregyn tebyg i wystrys.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



Chwarel Coed Bychan

Byddai'r moroedd lle y ffurfiwyd y cerrig hyn hefyd wedi bod yn gartref i ffosilau ymlusgiaid morol, fel yr ichthyosor, ac weithiau gellir dod o hyd i ffosilau esgyrn yr anifeiliaid hyn. Un o'r lleoliadau gorau i chwilio am ffosiliau yn ardal De Cymru yw arfordir Bro Morgannwg, lle gellir gweld clogwyni dramatig o Lias Glas.

Ewch yn ôl fel y daethoch chi i ymuno â'r prif lwybr unwaith eto, yna trowch i'r dde. Wrth i'r llwybr basio pen gorllewinol y chwarel, edrychwch i'r chwith. O dan y llwybr mae dau strwythur crwn o gerrig. Hen odynau calch yw'r rhain. Gallwch gael cipolwg arnynt drwy gamu i lawr o'r llwybr.

Yr odynau calch yw'r cliw cyntaf i sut y câi'r garreg o'r chwarel ei defnyddio. Mae'r calsiwm carbonad yn y calchfaen yn ddefnyddiol i ffermwyr, ond mae angen ei brosesu yn gyntaf. I wneud hynny, rhaid cynhesu'r cerrig i dymheredd uchel iawn (tua 1000°C), er mwyn newid y calsiwm carbonad yn galsiwm ocsid, neu galch (neu galch brwd). Mae ffermwyr yn lledaenu'r calch ar eu caeau er mwyn gwella cynnyrch y cnwd. Efallai y byddai'r odynau wedi cael eu defnyddio i greu mortar calch hefyd, a ddefnyddir ar gyfer gwaith pwyntio a rendro, fel y gwelir yng nghlwtwr o adeiladau'r ystâd gerllaw o dan Gastell Sain Ffagan. Cynhyrchir deunyddiau modern mewn ffatrioedd ac ni ddefnyddir odynau fel y rhain mwyach.

O Chwarel Coed Bychan a'r odynau calch, parhewch ar hyd y llwybr cerdded wrth iddo deithio tua'r gorllewin i mewn i'r goedwig. Ewch heibio i olion brics yr hen gronfa ddŵr a oedd yn gysylltiedig â Chastell Sain Ffagan, a 200m ar ôl hynny mae'r llwybr yn rhannu'n ddau, â phostyn ffens rhwng y ddau lwybr. Dilynwch y llwybr ar y chwith, sy'n arwain i lawr i un o Chwarelau Greenwood. Dyma Leoliad 2.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap

Odynau Calch

Waliau calchfaen





Lleoliad 2. Chwarelau Greenwood

Dyma un o ddwy chwarel a grëwyd y naill ochr a'r llall i Greenwood Lane, a oedd yn arfer ymestyn llawer ymhellach i fyny'r mynydd nag ydyw erbyn hyn. Mae Chwarelau Greenwood llawer yn llai na Chwarel Coed Bychan, ond roeddent ar agor tua'r un adeg gan gloddio cerrig rhwng 1840 a 1880. Gall fod yn anodd gweld wynebau'r chwarel ar y dde, rhwng y coed, felly byddwch yn ofalus os byddwch chi'n gadael y llwybrau cerdded. Gellir gweld yr un cerrig Lias Glas yma â'u haenau melyn golau a llwyd nodweddiadol. Arferai fod odynau yn y chwarelau hyn hefyd, ond maent wedi'u dymchwel ers tro. Mae agosrwydd y chwarelau hyn at bentref Sain Ffagan yn rhoi cliw i'r ail ffordd y câi'r Lias Glas ei ddefnyddio yn yr ardal leol, sef fel cerrig adeiladu.

Parhewch ar hyd y llwybr drwy ardal y chwarel. Croeswch weddillion wal gerrig isel a throwch i'r chwith, gan deithio i lawr y mynydd wrth ymyl wal gardd fodern. Croeswch heol breswyl St Fagans Drive ac ewch i lawr y grisiau i Greenwood Lane. Y waliau cerrig a'r adeiladau preswyl ar y ddwy ochr i'r lôn yw Lleoliad 3 ar y llwybr.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



Lleoliad 3. Waliau Cerrig

Tai preifat yw Radcliffe Lodge a'r Hen Reithordy. Gofynnir i chi barchu preifatrwydd y perchennog a'r eiddo drwy edrych ar yr adeilad o'r ffordd gyhoeddus yn unig.

Mae Lias Glas i'w weld yn y waliau ar y naill ochr a'r llall i Greenwood Lane. Wrth i chi barhau drwy'r pentref, fe welwch fod yr holl hen adeiladau wedi'u codi o galchfaen Lias Glas. Roedd yn garreg adeiladu boblogaidd gan ei bod yn rhannu'n ddwy haen yn naturiol. Mae cymalau o fewn yr haenau yn ffurfio blociau ar gyfer y cerrig adeiladu, heb fod angen newid eu siâp rhyw lawer. Ar ôl rhannu'r haenau, mae lliw llwydlas y garreg heb ei threulio yn dod i'r amlwg, ac yn cyfiawnhau'r enw Lias Glas.


Ar y dde i Greenwood Lane ychydig yn ôl o'r heol mae'r Hen Reithordy, a adeiladwyd o gerrig wrth gwrs - calchfaen Lias wedi'i sgwario ac addurniadau o garreg Caerfaddon – ym 1859 gan y Parchedig W. David. Mae'n debygol iawn y daeth y garreg Lias a ddefnyddiwyd i'w adeiladu o Chwarelau Greenwood i fyny'r lôn. Mae'n debygol y cafodd y waliau ar y naill ochr a'r llall i'r lôn eu hadeiladu tua'r un adeg.

Blaenorol

Nesaf


Prif Fap

Carreg Lias Glas o amgylch arfbais o Garreg Cotswold ar yr Hen Reithordy



Radcliffe Lodge





Wal gerrig ar hyd Greenwood Lane



Waliau Cerrig

Edrychwch yn ofalus ar y waliau ar ddwy ochr y lôn a byddwch yn sylwi, tra mai calchfaen Lias Glas yw'r rhan fwyaf o'r cerrig adeiladu, ceir rhai cerrig cwbl wahanol. Dylech fod yn gallu gweld tipyn o gerrig coch, â cherrig mân mewn rhai ohonynt. Cerrig o'r cyfnod Triasig yw'r rhain a ddaeth o Chwarel Coedwig Fawr Plymouth ar ochr arall Dyffryn Elái (gweler Lleoliad 7 am ragor o fanylion am gefndir y cerrig coch trawiadol). Defnyddiwyd y cerrig coch Triasig o Goedwig Fawr Plymouth a'r Lias Glas o Chwarelau Coed Bychan a Greenwood i adeiladu'r rhan fwyaf o hen ganolfan pentref Sain Ffagan. Mae hynny'n nodweddiadol o'r dulliau adeiladu ar adeg pan oedd hi'n gostus iawn i gludo nwyddau trymion fel cerrig tra bod y llafur i gloddio'r garreg yn lleol yn gymharol rhad.

Parhewch i lawr Greenwood Lane nes i chi gyrraedd Eglwys y Santes Fair, sef Lleoliad 4 ar y llwybr. Ewch i mewn i'r fynwent drwy'r gât fach ar y chwith.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



Lleoliad 4. Eglwys y Santes Fair


Fel gweddill y pentref, mae'r Eglwys wedi'i hadeiladu o Lias Glas ar y cyfan, ond os edrychwch yn ofalus gallwch hefyd weld ambell dywodfaen Triasig a chlymfaen o ochr arall y dyffryn hefyd. Fan hyn a fan draw gallwch hefyd weld math o dywodfaen sy'n debyg iawn i'r garreg Driasig, ond sy'n fwy porffor o ran lliw a llawer yn galetach. Hen Dywodfaen Coch yw'r garreg hon, ac fel y mae'r enw'n ei awgrymu, mae llawer yn hŷn na'r cerrig eraill a ddefnyddiwyd yn yr Eglwys. Mae hefyd yn garreg gymharol leol, ond fe'u ceir ychydig ymhellach i ffwrdd. Mae'r chwarel agosaf yn Nhongwynlais, i'r gogledd.

Yn ogystal â'r tair carreg leol hyn, gellir gweld llawer o rhai egsotig yn yr eglwys a'r fynwent, sydd oll o lefydd hyd yn oed ymhellach i ffwrdd. Sylwch fod y cerrig o gwmpas y ffenestri a'r drwsau'n edrych yn wahanol i'r cerrig a welwyd yn Sain Ffagan hyd yma. Mae'r garreg lliw mêl hon yn dwyn strydoedd Caerfaddon i'r cof, ac mae rheswm da dros hynny. Calchfaen Cotswold ydyw, a fewnforiwyd i ychwanegu ychydig o steil; sy'n arwydd o bwysigrwydd yr eglwys i'r rhai a'i hadeiladodd, a hefyd pa mor gyfoethog oedden nhw. Mae rheswm ymarferol dros ddefnyddio Calchfaen Cotswold hefyd, gan ei bod yn ddigon cryf i'w defnyddio ar gyfer gwaith addurnol a gellir ei gerfio i greu cerflunwaith tri dimensiwn.

📍 Eglwys y Santes Fair Forwyn



📍 Manyllyn o'r Drws mewn Carreg



📍 Hen Garreg Coch



📍 Manyllyn o'r Ffenestr mewn Carreg



Blaenorol

Nesaf

Prif Fap

📍 Porth y Fynwent



📍 Gallwch weld cerrig egsotig yn y fynwent



Eglwys y Santes

Nodir bod yr eglwys wedi'i hadnewyddu ym 1860, ac mae'n debygol y cafodd cerrig eu cymryd o Chwarelau Greenwood a Choed Bychan i'r diben hwnnw.

Mae llawer o gerrig bedd y fynwent yn enghreifftiau o wenithfaen a cherrig eraill nad ydynt yn dod o'r ardal leol, na hyd yn oed Gymru! Mae llawer o'r cerrig yn rhai o dramor. Erbyn hyn mae cerrig egsotig fel hyn yn eithaf cyffredin, ond yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif byddai cerrig o'r fath yn arwydd o gyfoeth sylweddol.

Gan gerdded drwy borth y fynwent o flaen yr eglwys, croeswch y ffordd ac ewch i mewn i diroedd Castell Sain Ffagan drwy'r gât yn y wal. Dyma Leoliad 5 ar y llwybr, a fydd ond ar agor yn ystod oriau agor Amgueddfa Sain Ffagan.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



Lleoliad 5. Castell Sain Ffagan

Mae'r lleoliad hwn yn cynnig cyfle arall i werthfawrogi'r gwaith Lias Glas nodweddiadol a geir yn y pentref, gyda cherrig coch Triasig yn frith drwy'r wal. Credir mai Calchfaen Cotswold yw'r garreg a geir o amgylch ffenestri mwliwn y Castell. Ceir un garreg egsotig drawiadol ym mhorth y castell. Mae'r plac coffa i nodi agoriad y Castell yn amgueddfa wedi'i wneud o farmor trafertin. Yn draddodiadol, byddai'r trafertin a ddefnyddiwyd yn y DU yn dod o chwarelau i'r dwyrain o Rufain, ond bellach ceir chwarelau trafertin mawr yn Iran a Mecsico, ymhlith lleoedd eraill.

Ewch yn ôl drwy'r gât, gan adael Castell Sain Ffagan. Trowch i'r dde ac edrych draw y tu hwnt i'r gyffordd T tua'r chwith lle gellir gweld hen ysgol y pentref, sydd wedi'i thro'i'n dai bellach. Adeiladwyd yr ysgol o gerrig a gloddiwyd o Chwarel Coed Bychan ym 1860. Roedd 111 o blant ar y gofrestr pan agorodd yr ysgol. Trowch i'r dde wrth y gyffordd ac edrychwch i'r dde. Wrth i'r heol ddechrau ddod i lawr, fe welwch ffynnon ddŵr garreg wedi'i gosod yn wal gerrig y castell. Dyma Leoliad 6.

Blaenorol


Nesaf

Prif Fap

📍 Castell Sain Ffagan - Amgueddfa Werin Sain Ffagan.



📍 Hen Ysgol y Pentref



📍 Plac Coffa Garreg





Lleoliad 6. Ffynnon Ddŵr Garreg

Nodir mewn sawl cofnod hanesyddol mai o'r ffynnon hon y deuai dŵr yfed y pentref, ac ni chysylltwyd y pentref â'r brif bibell ddŵr tan 1938. Mae'r ffynnon yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a defnyddiwyd deunyddiau lleol i'w chreu. Mae'r ddwy golofn ar y naill ochr a'r llall wedi eu ffurfio o'r clymfaen Triasig a ddaw o Chwarel Coedwig Fawr Plymouth (gweler Lleoliad 7).

Parhewch i lawr yr heol. Wrth droed y bryn croeswch y ffordd a dilynwch yr arwydd i lawr y llwybr cerdded i ymuno â phen pellaf Llwybr Trelái eto. Dilynwch y llwybr heibio i'r gwaith trin carthion ac ar draws y cae. Ar ôl tua 1 cilometr byddwch yn cyrraedd y pwynt ble gadawsoch Llwybr Trelái.

Fel arall, gallwch ddilyn y llwybr cerrig adeiladu ychydig ymhellach ac ymweld â Chwarel Coedwig Fawr Plymouth. Bydd y llwybr hwn yn mynd â chi i'r chwarel. Ar ôl hynny, dylech ddod yn ôl yr un ffordd. Croeswch y rheilffordd wrth y groesfan, yna ar ôl 20 metr, dilynwch y llwybr cyhoeddus ar y chwith, i mewn i Coedwig Fawr Plymouth. Unwaith y byddwch chi yn y goedwig, cerddwch drwy adfeilion y rheiliau haearn ac yna dilynwch y trac sy'n arwain i fyny'r mynydd. Mae Chwarel Coedwig Fawr Plymouth ar ymyl uchaf y goedwig, uwch ben y trac. Dyma Lleoliad 7.



Blaenorol

Nesaf

Prif Fap

📍 Mae'r rhan fwyaf o'r cerrig yn y Chwarel wedi'u ffurfio o gerrig mân



Lleoliad 7. Chwarel Coedwig Fawr Plymouth

Agorwyd y chwarel hon i gloddio cerrig i adeiladu'r rheilffordd drwy'r dyffryn. Yn lleol, gelwir y math o garreg a geir yma yn Garreg Radur, oherwydd iddi gael ei chloddio yn ardal Radur hefyd. Er nad oes unrhyw galchfaen yn y chwarel, mae'n bosibl fod olion o dyn calch wrth y fynedfa i safle'r chwarel. Efallai y câi calchfaen ei gludo yma ar draws y dyffryn.

Crëwyd y cerrig hyn yn y Cyfnod Triasig, tua 210 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac maent yn hŷn na'r calchfaen Lias Glas. Mae'r cerrig yn goch, sy'n nodi iddynt gael eu ffurfio ar y tir yn hytrach nag o dan y môr. Mae rhywfaint o dywodfaen yn y chwarel hefyd, ond clymfaen sydd i'w weld yn y rhan fwyaf o wynebaw, sef carreg sy'n cynnwys darnau mân o gerrig eraill.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



Chwarel Coedwig Fawr Plymouth

Yn y cyfnod Triasig, safai'r ardal hon o Dde Cymru rhwng mynyddoedd a morlyn o fewn anialwch lletgras. Cafwyd cyfnodau o sychder a glaw trwm. Creodd y glaw ceunentydd dwfn; gan olchi cerrig mân ac weithiau clogfeini i lawr o'r mynyddoedd tua'r morlyn (gallwch weld enghraifft o glogfaen yng nghanol y chwarel, tua'r pen uchaf). Dros amser, cafodd y cerrig mân a'r clogfeini eu claddu'n araf, gan ffurfio'r garreg a welir heddiw.

Gellir gweld dau fath o gerrig mân, sy'n nodi bod dwy fath o garreg wedi'u herydu a'u cludo yng ngheg y ceunant yn y cyfnod Triasig. Tywodfaen coch yw'r rhan fwyaf o'r cerrig mân yn y chwarel hon, o'r cyfnod Defonaidd (tua 370 miliwn mlwydd oed). Ceir ambell garreg fân o galchfaen llwyd hefyd, o'r creigiau Carbonifferaidd (tua 360 miliwn mlwydd oed).

Allwch chi ddod o hyd i garreg fach lwyd ymhlith yr holl gerrig coch?

Chwarel Coedwig Fawr Plymouth



Yn ystod y cyfnod Triasig roedd ardal Sain Ffagan yn debyg i anialwch sych



Blaenorol

Nesaf

Prif Fap